OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 12 (Cy. 6) (C. 1)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2) 2022

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("y Ddeddf").

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn erthygl 2 yn dod i rym ar 11 Ionawr 2022 ond dim ond at ddibenion gwneud rheoliadau o dan adran 56(1) o'r Ddeddf ac at ddibenion dyroddi cyfarwyddyd o dan adran 57(1) o'r Ddeddf.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod adrannau 56 a 57 yn dod i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym ar 1 Medi 2022.

### NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 5 | 29 Medi 2021 | O.S. 2021/1069 (Cy. 252)(C. 61) |
| Adrannau 6 a 7 (yn rhannol) | 29 Medi 2021 | O.S. 2021/1069 (Cy. 252)(C. 61) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 23 Tachwedd 2021 | O.S. 2021/1069 (Cy. 252)(C. 61) |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 12 (W. 6) (C. 1)

# EDUCATION, WALES

## The Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (Commencement No. 2) Order 2022

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order brings into force provisions of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 ("the Act").

This Order provides that the provisions listed in article 2 come into force on 11 January 2022 but only for the purposes of making regulations under section 56(1) of the Act and for the purposes of issuing a direction under section 57(1) of the Act.

Article 3 of this Order provides that sections 56 and 57 come into force to the extent they are not already in force on 1 September 2022.

### NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

The following provisions of the Act have been brought into force by Commencement Order made before the date of this Order:

| *Provision* | *Date of Commencement* | *S.I. No* |
|---|---|---|
| Sections 1 to 5 | 29 September 2021 | S.I. 2021/1069 (W. 252)(C. 61) |
| Sections 6 and 7 (partially) | 29 September 2021 | S.I. 2021/1069 (W. 252)(C. 61) |
| Section 8 (partially) | 23 November 2021 | S.I. 2021/1069 (W. 252)(C. 61) |

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 12 (Cy. 6) (C. 1)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2) 2022

*Gwnaed* *6 Ionawr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 84(2), (3) a (4) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2) 2022.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 11 Ionawr 2022**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 11 Ionawr 2022—

(a) adran 56(1) o'r Ddeddf at ddibenion gwneud rheoliadau o dan yr adran honno, a

(b) adran 57(1) o'r Ddeddf at ddibenion dyroddi cyfarwyddyd o dan yr adran honno.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2022**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2022—

(a) adran 56 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, a

(b) adran 57 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

(**1**) 2021 dsc 4.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2022 No. 12 (W. 6) (C. 1)

# EDUCATION, WALES

## The Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (Commencement No. 2) Order 2022

*Made* *6 January 2022*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 84(2), (3) and (4) of the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021(**1**), make the following Order:

**Title and interpretation**

**1.**—(1) The title of this Order is the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021 (Commencement No. 2) Order 2022.

(2) In this Order, "the Act" means the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021.

**Provisions coming into force on 11 January 2022**

**2.** The following provisions of the Act come into force on 11 January 2022—

(a) section 56(1) of the Act for the purposes of making regulations under that section, and

(b) section 57(1) of the Act for the purposes of issuing a direction under that section.

**Provisions coming into force on 1 September 2022**

**3.** The following provisions of the Act come into force on 1 September 2022—

(a) section 56 to the extent it is not already in force, and

(b) section 57 to the extent it is not already in force.

(**1**) 2021 asc 4.

*Jeremy Miles*

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
6 Ionawr 2022

Minister for Education and Welsh Language, one of the Welsh Ministers
6 January 2022

©ⓗHawlfraint y Goron 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2022

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/12

ISBN 978-0-348-39216-6